YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2020 – Derbyn/Blwyddyn 1 Mrs Jenkins

## Bant â ni i gynllunio!




Rwy eisiau chwarae meddygon. (*I want to play doctors.)*

Leeco-Moon

*Chi'n dechrau fel babis a wedyn yn tyfu.*

Ffion T

**Dewis Ardal Chwarae Rôl**

**Meddygfa-22 Tŷ - 6**

Rwy eisiau chwarae pen-blwyddi. *(I want to play birthdays.)*

Cocoa

Rwy'n hoffi canu cerddoriaeth. (*I like to play music.)*


Heulwen

Ar eich pen-blwydd rydych yn flwyddyn yn henach.

*(You get a year older on your birthday.)*

Ffion B

Ydy pawb yn hoffi yr un peth?



*Rwy'n hoffi pêl-droed.*

Rhydian

Rwy'n gallu chwibanu. *(I can whistle.)* William

*Weithiau ni'n hapus a weithiau ni'n drist.* George

Mae angen golchi dwylo a gwneud ymarfer corff. (*You need to wash your hands and exercise.*) Theo

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2020 – Derbyn/Blwyddyn 1 Mrs Jenkins

Syniad mawr y tymor hwn:

**Dyma fi!**

Dyma ein syniadau.



**Iechyd a Lles**

- Dechrau mynegi ein teimladau a datblygu strategaethau i reoli ein hemosiynau
- Dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein cyrff e.e. hylendid personol, ymarfer corff
- Datblygu ein ffitrwydd
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Edrych ar bortreadau enwog o arlunwyr Cymru e.e. portreadau Cedric Morris
- Ymarfer sgiliau arlunio/peintio wrth greu hunan-bortreadau
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd
- Defnyddio ein synhwyrau i ymateb yn greadigol i gerddoriaeth
- Dechrau siarad am sut mae darn o gerddoriaeth yn gwneud i ni deimlo
- Archwilio rhythm gyda'n cyrff
- Printio gyda rhannau'r corff

**Y Dyniaethau**

- Siarad am ein hoff bethau/cas bethau
- Meddwl am bwy yw'r bobl pwysig yn ein bywydau a pham maent yn bwysig i ni e.e. teulu
- Siarad am y lleoedd sy'n bwysig i ni ac esbonio pam
- Adnabod digwyddiadau pwysig sydd wedi digwydd yn y gorffennol e.e. pen-blwyddi
- Trefnu digwyddiadau personol a dechrau deall cysyniad o'r dyfodol e.e. meddwl am beth hoffen ni wneud pan fyddwn yn fawr
- Dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddon ni
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl 'Meddygfa Bryn-y-Môr'
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r syniad mawr
- Dysgu geirfa, a chaneuon am y corff
- Gweithgareddau Tric a Chlic
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. disgrifiadau, gwahoddiadau, cardiau

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Datblygu ein sgiliau adio a thynnu i ffwrdd
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data a'i gyflwyno
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am sut mae ein cyrff yn newid wrth i ni dyfu
- Cynnal ymchwiliadau i sut mae'r corff yn gweithio e.e. y synhwyrau
- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadol yn ddiogel
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig